

Disgrifiad Swydd

CYFARWYDDIAETH:	Addysg a Chymorth i Deuluoedd
ADRAN:	Gwasanaethau Arlwyo
SWYDD:	Cogydd Cynorthwyol
GRADDFA'R SWYDD:	GR05
YN ATEBOL I'R:	Cogydd

DIBEN Y SWYDD:

Cynorthwyo'r Cogydd ym mhob dyletswydd wrth sicrhau gwasanaeth arlwyo effeithlon, cost effeithiol ac o ansawdd i bob cwsmer yn yr amgylchedd ysgol gynradd gan gynnal gofynion deddfwriaethol o ran lechyd a Diogelwch, a Diogelwch a Hylendid Bwyd ar bob adeg.

PRIF GYFRIFOLDEBAU A GWEITHGAREDDAU:

- Cynllunio'r fwydlen, rheoli dognau, paratoi, coginio a chyflwyno prydau bwyd ar gyfer y gwasanaeth.
- Rheoli hylendid yn y gegin, lechyd a Diogelwch, a diogelwch eiddo yn unol â pholisi, deddfwriaeth y cyngor a safonau sicrhau ansawdd.
- Hyfforddiant sefydlu ac asesu staff gan gynnwys goruchwyllo staff a rota gwaith.
- Archebu a derbyn cyflenwadau a rheoli stoc.
- Dyletswyddau ariannol a gweinyddol yn unol â pholisi'r cyngor.
- Gweithredu cynllunio hyrwyddo i sicrhau bod cymaint â phosibl yn cael y prydau bwyd.
- Cyfathrebu â'r tîm arlwyo, rheolwyr, penaethiaid a disgyblion yn effeithiol.

DYLETSWYDDAU CYFFREDINOL

lechyd a Diogelwch

Cyflawni'r rolau a chyfrifoldebau cyffredinol a phenodol a nodir yn y [Polisi lechyd a Diogelwch](#)

Cyfle Cyfartal

Sicrhau bod pob gweithgaredd yn cael ei weithredu yn unol â deddfwriaeth cyfle cyfartal ac arfer gorau.

Diogelu

Mae amddiffyn plant, pobl ifanc neu oedolion mewn perygl yn un o gyfrifoldebau craidd pob cyflogai. Dylid rhoi gwybod am unrhyw bryderon i'r Tîm Diogelu Oedolion neu'r Gwasanaeth IAA Plant o fewn MASH.

Adolygiad a Hawl i Amrywio

Mae'r Disgrifiad Swydd hwn fel yr un cyfredol a chaiff ei adolygu'n rheolaidd. Efallai y bydd gofyn i chi gyflawni tasgau eraill y gellir eu neilltuo i chi'n rhesymol, gan gynnwys gweithgareddau datblygu, sydd o fewn eich gallu a'ch gradd.

Gwiriad Cofnodion Troseddol

Mae'r swydd hon yn ei gwneud yn ofynnol cael gwiriad cofnodion troseddol drwy'r Gwasanaeth Datgelu a Gwahardd (DBS)

Fanyleb y Person
Cogydd Cynorthwyol

Mae'r priodoleddau canlynol yn cynrychioli amrediad y sgiliau, y galluoedd a'r profiad ac ati sy'n berthnasol i'r swydd hon. Disgwylir i'r ymgeiswyr fodloni'r priodoleddau sydd wedi'u nodi fel rhai hanfodol (Ydy).

Priodoleddau	Gofynion	Hanfodol	Dull Gwerthuso / Profi
Cymwysterau, Addysg a Hyfforddiant	<ul style="list-style-type: none"> • Profiad blaenorol ym maes arlwyyo. • Dyfarniad Lefel 2 Diogelwch Bwyd mewn Arlwyyo. • Dyfarniad Lefel 3 Diogelwch Bwyd mewn Arlwyyo (rhoddir hyfforddiant). • Codi a Chario. • NVQ2 neu gymhwyster cyfatebol. 	<p>Ydy</p> <p>Ydy</p>	Cyflwyno tystysgrifau cymwysterau gwreiddiol a ffurflen gais
Gwybodaeth a Phrofiad	<ul style="list-style-type: none"> • Profiad o weithio mewn amgylchedd arlwyyo. • Yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd. • Safonau uchel o ofal cwsmeriaid. • Gwybodaeth am iechyd a diogelwch. 	Ydy	Cyfweliad, ffurflen gais, geirdaon a phroses ddethol.
Sgiliau a Rhinweddau Personol	<ul style="list-style-type: none"> • Yn ymrwymedig i ddarparu gwasanaeth o ansawdd. • Safonau uchel o ofal cwsmeriaid. • Gweithio fel rhan o dîm, arwain drwy esiampl gan ysgogi staff i sicrhau cyn lleied o drosiant â phosibl. • Sgiliau cymdeithasol a chyfathrebu da. • Lefelau uchel o bresenoldeb a phrydlondeb. 	<p>Ydy</p> <p>Ydy</p>	Cyfweliad, ffurflen gais, geirdaon a phroses ddethol.

Bridgend County Borough Council

Cyngor Bwrdeistref Sirol Pen-y-bont ar Ogwr

www.bridgend.gov.uk



Priodolddau	Gofynion	Hanfodol	Dull Gwerthuso / Profi
	<ul style="list-style-type: none">Hunangymhelliant.Hyblyg oherwydd gall oriau gwaith newid i weddu i anghenion y busnes.Gallu cyfathrebu drwy gyfrwng y Gymraeg.	Ydy	